CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE ORLLEWIN CYMRU

GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL, DYDD GWENER MEHEFIN 13eg

2003 YNG NGHANOLFAN DDINESIG PENLLERGAER

Presennol:

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Alban Forster	SLR
Ruth Brown	APC Bannau Brycheiniog
Steve Bool	CBS Pen-y-Bont ar Ogwr
Huw Jenkins	CBS Pen-y-Bont ar Ogwr
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro ac APC Arfordir Sir Benfro
Peter Kendall	Cyngor Sir Caerfyrddin
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Cliff Parish	Dinas a Sir Abertawe
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Phil Marks	CYLCH
Steve Thomas	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Karen Black	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Cathy O' Brien	Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fai 19eg
   Cytunwyd fel cofnod cywir, dim materion yn codi.

2. Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Drafft

   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y manylion canlynol:

   a. Seilir y Cynllun Drafft Rhanbarthol ar gyfer Gwastraff o amgylch Opsiwn 6 y gwerthusiad cynaladwyedd, ond gyda rhagor o hyblygrwydd ynddo, gyda golwg penodol ar driniaeth MBT, i sicrhau bod triniaeth thermol yn aros fel opsiwn i ymdrin â chyfleusterau cyfredol a'r rhai sy'n gynlluniedig fel ei gilydd ac i adael opsiynau ar agor ar gyfer technolegau newydd/sy'n dod i'r amlwg ym maes triniaeth yn ystod bywyd y cynllun gwastraff.
   b. Bydd y cynllun yn cyfeirio at feini prawf o ran lleoliad, nodweddion allweddol a pholisïau ar gyfer ymdrin â chyfleusterau rhanbarthol/is-ranbarthol, gan gynnwys gwastraff peryglus.

3. Ymgynghoriad

   Cytunwyd ar y papur ymgynghori. Bydd CNPT yn hysbysu cyfarfod nesaf y GTRh o gostau tebyg y strategaeth ynghyd ag unrhyw anawsterau y mae hynny'n debyg o achosi mewn perthynas ag arian grant awdurdodedig oddi wrth LlCC.

Cytunwyd hefyd y byddai LlCC yn hwyluso cyn-ymgynghoriad gyda diwydiant, oherwydd presenoldeb gwael eu haelodau ym mhob un o'r tri rhanbarth. Nododd Cliff Parish y byddai Abertawe yn ymgynghori ar eu strategaeth drefol yn ystod misoedd Gorffennaf/Awst ac y byddai eisiau sicrhau na fyddai hynny'n gwrthdaro ag ymgynghoriad yn y strategaeth ranbarthol. Cytunwyd na fyddai hynny'n digwydd ar amserlenni cyfredol.

4. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dydd Mercher Gorffennaf 9fed, 2.00 pm, Penllergaer.